Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

| |
|---|
| **Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl392 |
| **Amseru:** Unigol |
| **Teitl:** Rhwydwaith Eiriolwyr Dioddefwyr-Goroeswyr |
| **Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Ymgysylltu / Sicrwydd |

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn cydlynu â'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr (FfYD) ar ran y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (BCTLl). Mae'r FfYD yn cael ei ail-frandio fel y Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr ar ôl derbyn adborth ynghylch y defnydd o'r termau 'dioddefydd' a 'fforwm': Nid yw pawb sydd wedi'u heffeithio gan drosedd yn ystyried eu hunain yn ddioddefwyr, ac ystyriwyd bod y term 'fforwm' yn gamarweiniol, gan gyfeirio at fwy o ymrwymiad na'r hyn a ddisgwylir gan aelodau.

Mae'r Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr yn galluogi SCHTh i gasglu adborth gan ddioddefwyr-goroeswyr mewn perthynas â'u profiadau ac o ran polisïau/prosesau/dogfennau. Fodd bynnag, yn hanesyddol, nid yw'r llwyfan hwn wedi'n galluogi i gasglu adborth cyfredol ac amser byw gan y dioddefwyr-goroeswyr. Gan hynny, cynigir bod Rhwydwaith Eiriolwyr Dioddefwyr-Goroeswyr yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r Rhwydwaith Ymgysylltu.

Bydd SCHTh yn ymgysylltu ag unigolion mewn rolau dioddefwyr-goroeswyr ledled ein gwasanaethau comisiwn i gasglu adborth cyfredol mae eu defnyddwyr gwasanaeth yn rhannu gyda nhw. Bydd hyn yn cynnwys Llwybrau Newydd, Consortiwm Dal i Godi, Cymorth i Ddioddefwyr, a Paladin. Byddwn ni'n cytuno ar Gylch Gorchwyl gyda nhw.

Bydd yr ymagwedd hon yn galluogi SCHTh i gasglu adborth amser byw ar feysydd sy'n destun pryder, a meysydd arfer gorau, y tynnir sylw atynt gan ddioddefwyr-goroeswyr.

Ar sail chwarterol, bydd themâu a nodir drwy'r ddau Rwydwaith yna'n cael eu cyflwyno mewn Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion o'r BCTLl, i uwch gynrychiolwyr o sefydliadau gwasanaeth cymorth a chyfiawnder troseddol. Bydd yr ymagwedd hon yn rhoi llais i ddioddefwyr a goroeswyr yn y BCTLl, ac yn arwain at welliant o ran gwasanaethau dioddefwyr.

**Argymhelliad:**

Bod Rhwydwaith Eiriolwyr Dioddefwyr-Goroeswyr yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 14/01/2025**